Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

ESRC Wales Doctoral Training Partnership
Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC

E·S·R·C ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL

# Interniaethau PhD yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Cefndir

Ariennir Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC) gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Mae'n cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi. Mae'r Ganolfan hefyd yn ymgymryd ag ymchwil i ddatblygu dealltwriaeth o'r rôl y gall tystiolaeth ei chwarae wrth helpu i lunio polisïau a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn well. Mae rhagor o wybodaeth am y Ganolfan ar gael yma www.wcpp.org.uk

Dyma drydedd flwyddyn ein Cynllun Interniaethau PhD sy'n cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr PhD a ariennir gan ESRC ar lwybrau'r Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol (DTP) gael treulio tri mis yn y Ganolfan i gymhwyso a datblygu eu sgiliau a'u technegau ymchwil i faterion byd go iawn sy'n hynod gyfoes. Bydd yr interniaethau hyn yn cynnig cyfle rhagorol i fyfyrwyr PhD gael profiad ymarferol o wneud ymchwil mewn sefydliad sy'n gweithio ar y rhyngwyneb rhwng ymchwil a llunio polisïau. Byddwch yn gweithio wrth ochr staff sydd â PhD ac sy'n gweithio ar hyn o bryd gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr i roi tystiolaeth i wella'r gwaith o lunio polisïau a chanlyniadau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Crynhoir profiad myfyrwyr PhD blaenorol yma.

Bydd yr interniaeth yn cynyddu dealltwriaeth ymgeiswyr o'r gwaith o lunio polisïau yng Nghymru yn ogystal â gwella eu sgiliau ymchwil (e.e. chwilio am/adolygu llenyddiaeth, dylunio cynllun ymchwil). Hefyd bydd cyfle i chi ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau ymarferol (e.e. ysgrifennu adroddiadau, cyfathrebu, rheoli amser, gweithio mewn tîm, datblygu strategaethau effaith) a fydd yn allweddol i'ch gyrfa yn y dyfodol. Yn ogystal, bydd yr interniaeth yn galluogi'r ymgeisydd i estyn ei rwydwaith ymysg academyddion, llunwyr polisïau ac ymarferwyr yng Nghymru a thu hwnt.

Rydym wedi amlinellu dau fath i fyfyrwyr eu hystyried:

1) Interniaeth sy'n cefnogi ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru a/neu wasanaethau cyhoeddus. Byddwch yn gweithio mewn tîm o ymchwilwyr sy'n canolbwyntio ar bwnc a ddyluniwyd ar y cyd â'n Harianwyr. Rhoddir rhai enghreifftiau o brosiectau diweddar yn yr adran isod, 'Ffocws yr Interniaeth'.
2) Interniaeth sy'n archwilio rôl tystiolaeth wrth lunio polisïau. Gallai hyn fod mewn maes polisi penodol yn eich PhD (e.e. mae interniaid blaenorol wedi astudio polisi cydraddoldeb a ffermio) neu'n fwy cyffredinol. Rhoddir rhai cwestiynau ymchwil posibl isod.

Fel arall, gall myfyrwyr gynnig pwnc o'u dewis eu hunain, gan gymhwyso eu diddordebau PhD a'u harbenigedd i faes polisi y mae WCPP wedi gwneud gwaith ynddo. Ar gyfer pynciau a gynigir gan fyfyrwyr, bydd eu cymhwysedd yn seiliedig ar eu cyfatebiaeth â diddordebau presennol WCPP. Felly cadwch hynny mewn cof wrth ddylunio'ch cynnig. Os ydych chi'n ystyried cynnig eich pwnc

eich hun, cysylltwch â'r Athro James Downe James.Downe@wcpp.org.uk ar gam cynnar i drafod cwmpas a siâp unrhyw gynnig cyn i chi ei gyflwyno.

## Manyleb y myfyriwr

Ar gyfer pob interniaeth, byddem yn disgwyl i'r myfyriwr fod â'r canlynol:

- Sgiliau ymchwil a dadansoddi cryf gan gynnwys profiad o wneud adolygiadau llenyddiaeth ac o ddulliau ansoddol (e.e. cyfweliadau lled-strwythuredig).
- Profiad o waith dadansoddol ym meysydd polisi cymdeithasol neu gyhoeddus.
- Diddordeb mewn ysgrifennu dogfennau cryno, wedi'u hysgrifennu'n dda e.e. blog-bostiau, crynodebau ymchwil ac ati, wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd nad ydynt yn arbenigwyr.

Mae WCPP a DTP ESRC wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, ac amgylchedd ymchwil cynhwysol. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad amhrisiadwy a wneir gan ymchwilwyr o bob cefndir i'n gwaith. Rydym yn annog ceisiadau am yr interniaethau hyn gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, gan gynnwys myfyrwyr/ymchwilwyr ag anableddau, a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

## Hyd a dyddiad dechrau'r interniaeth

Byddai'r interniaeth yn para am gyfnod o dri mis a bydd wedi'i lleoli yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn sbarc|spark ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae staff yn gweithio yn y swyddfa am ddau ddiwrnod yr wythnos ar hyn o bryd. I fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar ysgoloriaeth ran-amser, mae'r interniaethau ar gael yn rhan-amser, a bydd angen trafod hyn ag arweinydd y prosiect.

Rydym yn hyblyg o ran dyddiad cychwyn yr interniaeth gan y bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, ond rydym yn rhagweld dyddiad cychwyn ym mis Medi 2023

## Cyllid a chostau

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael estyniad â thâl o dri mis i'w PhD ar gyfradd fisol ddangosol o £1,855 y mis (ffioedd a chostau cyflog).

Gall Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru dalu am gostau teithio a llety rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghaerdydd. Dylai'r ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau DTP. Fel arfer ni fyddai disgwyl bod angen i fyfyriwr sydd wedi'i gofrestru yng Nghaerdydd adhawlio costau teithio/llety. Ni fyddwn yn ymdrin yn llai ffafriol â cheisiadau gan fyfyrwyr sydd angen arian ychwanegol ar gyfer teithio a llety. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â: info@wcpp.org.uk

# Ffocws yr interniaeth

## 1. Cefnogi ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru a/neu wasanaethau cyhoeddus

Rydym yn chwilio am fyfyriwr PhD a all ddod â'r meysydd ymchwil a pholisi ynghyd, ac sy'n ymroddedig i gynhyrchu gwaith ymchwil a dadansoddiadau o safon uchel sy'n berthnasol i bolisi. Mae'r interniaeth hon yn cynnig cyfle unigryw i ennill profiad uniongyrchol o gynhyrchu ymchwil sy'n berthnasol i bolisi, gan gydweithio'n agos ag academyddion blaenllaw, uwch lunwyr polisïau, a gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwch yn cyfrannu at aseiniad ar gyfer gweinidogion Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus. Gall tasgau gynnwys cyfosod llenyddiaeth ar bwnc, cynllunio'r prosiect, nodi a chomisiynu arbenigwr, drafftio/golygu adroddiad, a chyfathrebu'r canfyddiadau trwy flog a/neu drefnu digwyddiad. Byddwch yn cael eich mentora gan uwch aelod o staff y Ganolfan.

Rydym wedi gweithio ar ystod eang o bynciau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys:

- Sero net – effeithiau a chamau lliniaru
- Sgiliau sero net – trosolwg o dystiolaeth ac ymgysylltiad â'r sector
- Ymagweddau rhyngwladol at bontio teg a thebygrwydd/gwahaniaethau â chyfiawnder amgylcheddol
- Adolygiad tystiolaeth rhyngwladol o fodelau rheoleiddio ar gyfer diogelwch adeiladau
- Diffinio, mesur, a monitro Iechyd Democrataidd yng Nghymru
- Adolygiad o ymatebion polisi ac ymyriadau strategol i fynd i'r afael â gostyngiad yn y boblogaeth a phoblogaeth sy'n heneiddio
- Cynllun peilot Incwm Sylfaenol Llywodraeth Cymru
- Caffael sector cyhoeddus a gwerth cymdeithasol.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus i ddewis prosiectau y byddwn yn ymgymryd â hwy yn ystod y misoedd nesaf. Byddwch yn cael y cyfle i weithio ar un o'r prosiectau newydd hyn.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r interniaeth hon, cyfeiriwch nhw at yr Athro James Downe James.Downe@wcpp.org.uk

## 2. Rôl tystiolaeth wrth lunio polisïau

Mae angen cynyddol ymysg cyrff sy'n broceru gwybodaeth, fel Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, a chyrff eraill sy'n cefnogi gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus, i ddeall yn well sut mae tystiolaeth yn cael ei defnyddio. Mae ymchwilwyr bellach yn gwrthod modelau gorsyml o ddefnyddio tystiolaeth, a hynny o blaid dulliau mwy cynnil sy'n nodi mai dim ond un rhan o brosesau polisi cymhleth yw tystiolaeth. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys rhyngweithio rhwng llawer o weithredwyr sy'n dod o dan ddylanwad normau, gwerthoedd, credoau a gwleidyddiaeth.

Mae pob un o'r ffactorau hyn yn effeithio ar sut caiff tystiolaeth ei chasglu, ei throsi, a'i defnyddio wrth lunio polisïau a llunio/cyflwyno gwasanaethau.

Bydd y prosiect yn adeiladu ar ein gwaith presennol ar froceriaid gwybodaeth i wella dealltwriaeth o sut a phryd y gall gwybodaeth ac arbenigedd sy'n deillio o ymchwil lywio polisi ac ymarfer (ar lefel genedlaethol neu leol). Gallai'r prosiect hwn gynnwys astudio cymunedau polisi-tystiolaeth o amgylch maes polisi neu archwilio'r cymunedau polisi-tystiolaeth mewn ardal leol. Gallai'r ymgeisydd archwilio rhai o'r cwestiynau ymchwil canlynol:

- Pa fecanweithiau sy'n gweithio orau i annog cynhyrchu, trosglwyddo a defnyddio tystiolaeth?
- Sut caiff tystiolaeth sy'n deillio o ymchwil ei chasglu, ei throsi, ei defnyddio neu ei hanwybyddu ym maes llunio polisïau ac ymarfer?
- Beth yw effaith broceriaid gwybodaeth ar bolisi a gwasanaethau cyhoeddus?
- Pwy yw'r gweithredwyr sy'n ymwneud â chymuned polisi-tystiolaeth?
- Sut mae cyfansoddiad a swyddogaeth cymunedau polisi-tystiolaeth yng Nghymru yn cymharu â chymunedau tebyg yn yr Alban neu Loegr?

Dylai'r interniaeth gysylltu'n agos â ffocws eich diddordebau PhD fel y gallwch ddechrau ar y gwaith a chwblhau'r gweithgareddau o fewn tri mis. Byddwn yn gweithio gyda'r ymgeisydd i benderfynu ar y cwestiwn ymchwil terfynol ac yn dylunio cynllun ymchwil drafft cyn dechrau gweithio yn y Ganolfan.

Bydd yr ymchwilydd yn ymwneud â dadansoddiad dogfennol, adolygiad llenyddiaeth, cyfweliadau neu ddadansoddiad astudiaeth achos ac yn ysgrifennu'r canfyddiadau. Dylai adroddiad byr (tua 12 tudalen), sy'n crynhoi'r dull a ddefnyddiwyd ac yn amlinellu'r canfyddiadau, gael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi ar y wefan. Bydd y prosiect yn anelu at gael effaith ar bolisi/ymarferwyr yn ogystal â chynulleidfaoedd academaidd gan y bydd yn cynhyrchu gwybodaeth newydd am rôl tystiolaeth wrth lunio polisïau. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn ffordd hygyrch er mwyn helpu i sicrhau y defnyddir yr ymchwil. Bydd blog yn crynhoi'r ymchwil hefyd yn cael ei ddrafftio i'w gynnwys ar wefan y Ganolfan. Bydd yr ymchwilydd hefyd yn ymwneud â gweithgareddau eraill i godi ymwybyddiaeth o'r ymchwil a'i throsi'n bolisi/ymarfer.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r prosiect, cyfeiriwch y rhain at Dr Hannah Durrant Hannah.Durrant@wcpp.org.uk

## Y broses ymgeisio

Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr ar *bob un* o'r llwybrau DTP. Os oes gennych ddiddordeb yn yr interniaethau hyn, dylech drafod y cyfle hwn yn gyntaf gyda'ch goruchwyliwr a chael caniatâd ganddo/ganddi i wneud cais. Rydym hefyd yn eich cynghori'n gryf i gysylltu â'r person a enwir uchod a fydd yn goruchwylio pob interniaeth.

Anfonwch lythyr cais a CV i info@wcpp.org.uk erbyn **Dydd Gwener 7 Gorffennaf 2023**. Dylai pob dogfen fod yn ddim mwy na dwy ochr A4. Dylai eich llythyr nodi pa interniaeth y mae gennych ddiddordeb ynddi, cadarnhau bod eich prif oruchwylydd wedi cytuno ar hyn, nodi dyddiad cychwyn

posibl, a chynnwys sut rydych yn teimlo y byddai'r interniaeth o fudd i'ch rhaglen Ddoethurol. Ar gyfer y math cyntaf o interniaeth lle byddwch yn gweithio ar brosiect Llywodraeth Cymru/gwasanaethau cyhoeddus, amlinellwch y meysydd polisi yr ydych yn ymddiddori ynddynt fwyaf. Os byddai'n well gennych gael interniaeth ar rôl tystiolaeth wrth lunio polisïau, amlinellwch eich syniadau ar y dull methodolegol arfaethedig ar gyfer yr astudiaeth a syniadau am ffyrdd o ledaenu'r canfyddiadau.

Mae'n debygol y bydd cyfweliadau'n rhan o'r broses ddethol, a bydd y rhain yn cael eu cynnal dros Zoom neu MS Teams.